

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Ai cerdd yn gwneud hwyl am ben y ferch unigol hon yw 'Ar Gyrion y Dre', neu a yw'r bardd yn ceisio tynnu ein sylw at rywbeth pwysicach am ein bywydau yn yr Unfed Ganrif ar Hugain?

b) Os felly, beth yw'r pryderon sy'n cael eu hawgrymu yn y gerdd?

Nodwch linellau, ymadroddion neu eiriau penodol sy'n cefnogi eich safbwynt chi.

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Darllenwch benillion 3 a 4 unwaith eto.

Pa mor effeithiol yw'r nodwedd arddull isod wrth geisio cyfleu'r olygfa a chyfleu teimladau'r ferch?

'... y cyfan mewn côr

yn chwerthin mewn cylch'

A yw'n ddisgrifiad addas neu anaddas? Pam?

c) Darllenwch bennill 5 unwaith eto.

Pa mor effeithiol yw'r disgrifiad o'r siopau o gwmpas y ferch 'yn creu cadwyn o'i blaen?'

Oes rheswm bod y bardd wedi dewis disgrifio'r siopau fel hyn?

TASG 3 : YSGRIFENNU (SGRIPTIO)

Yn ei gofid, mae'r ferch yn y gerdd yn mynd i mewn i un o'r siopau i holi (pennill 6).

Ysgrifennwch sgrïpt fer (un dudalen A4) yn cofnodi'r sgwrs rhwng y ferch a'r sawl sy'n gweithio yn y siop.

Gall eich sgrïpt fod yn un o ddifri neu'n sgrïpt gomig.

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod yn byw mewn tref fach yng nghefn gwlad Cymru, a bod sôn ar led fod canolfan siopa i'w hadeiladu ar gyrion eich tref.

Ysgrifennwch erthygl (350 o eiriau) i wefan ieuenctid eich tref sy'n nodi eich rhesymau dros ac yn erbyn y datblygiad.

Wedyn, dewch i gasgliad pendant ynglŷn â'ch barn chi ar y mater.